# Adolygiad Thematig o Feysydd Astudio

Mawrth 2026



Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

# Cynnwys

**Yr Adolygiad Thematig o Feysydd Astudio ... 1**

**Argymhellion am gymorth sefydliadol a thraws-sector ... 2**

**Materion allweddol sydd i dderbyn ystyriaeth gan y sector ... 4**

**Yr adroddiad hwn ... 5**

Boddhad y myfyrwyr ... 5
Cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o ddadansoddi profiad y myfyrwyr a chanlyniadau'r ACF 5
Effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu (Medr a'r sefydliad) ar gyfer meysydd astudio penodol ... 5
Trefnau sefydliadol ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd profiad y myfyrwyr ... 5

**Crynodeb o ganlyniadau'r adolygiad ... 6**

Boddhad y myfyrwyr ... 6
Ffactorau sy'n gyrru lefelau isel o foddhad ymysg y dysgwyr ... 6
Themâu sy'n ailadrodd ... 9
Themâu cyffredin ... 10
Pethau sydd wedi gweithio'n dda ... 10
Cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o ddadansoddi profiad y myfyrwyr a chanlyniadau'r ACF ... 10
Effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu (Medr a'r sefydliad) ar gyfer meysydd astudio penodol ... 11
Trefnau sefydliadol ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd profiad y myfyrwyr ... 13

# Yr Adolygiad Thematig o Feysydd Astudio

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Adolygiad Thematig o Feysydd Astudio (ThFA), a gomisiynwyd gan Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA). Yn yr Adolygiad ThFA, adolygwyd meysydd astudio a gynigir gan nifer o sefydliadau yr oedd gofyn eu rhoi dan fesurau dilynol am dair blynedd neu fwy oherwydd y sgorau isel am 'foddhad' yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF).

Mae'r meysydd astudio a adolygwyd wedi eu trefnu yn ôl yr Hierarchaeth Gydgasglu Gyffredin [Common Aggregation Hierarchy] (CAH), fel a ganlyn:

- CAH 07 Y Gwyddorau Ffisegol
- CAH 11 Cyfrifiadureg
- CAH 25 Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio.

Lluniwyd y broses Adolygiad ThFA i fod yn drwyadl a chymesur ac i ddarparu sicrhad sy'n bwysig i fyfyrwyr ynghylch y safonau academaidd, deilliannau dysgu'r myfyrwyr a'r profiad academaidd. Ni roddir unrhyw feirniadaethau ffurfiol o ganlyniad i Adolygiad ThFA. Ar sail canfyddiadau'r Adolygiad ThFA, gwnaeth QAA argymhellion ynglŷn â gweithredu ar sut y gall y sefydliad fynd i'r afael orau â lefelau isel o foddhad ymysg y myfyrwyr, darganfod meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus, a darganfod nodweddion o arfer da fel canmoliaethau. Ar sail canfyddiadau'r gwahanol Adolygiadau ThFA a wnaethpwyd, gwnaeth y tîm adolygu hefyd argymhellion i'w hystyried gan Medr sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Dyma oedd canlyniadau'r Adolygiad ThFA:

- adroddiad cyfrinachol wedi'i deilwra i bob sefydliad, a rannwyd gyda'r sefydliad a Medr yn unig

- yr adroddiad cryno thematig yn nodi themâu ac argymhellion ar draws yr holl feysydd astudio oedd dan sylw.

Penodwyd tîm o bedwar adolygwr i weithredu'r Adolygiad ThFA. Adolygwyd pob sefydliad gan dri o'r pedwar adolygwr, a ddewiswyd ar sail eu harbenigedd yn y pwnc. Roedd yr adolygwr sy'n fyfyriwr yn cymryd rhan ymhob un o'r adolygiadau.

- Yr Athro Shushma Patel (arbenigwr ym maes astudio Cyfrifiadureg)
- Dr Ivan Garcia (arbenigwr ym maes astudio Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio)
- Dr Scott Cameron (arbenigwr ym maes astudio'r Gwyddorau Ffisegol)
- Mr Rory O'Neill (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Gweithredwyd yr Adolygiad ThFA ar ffurf dadansoddiad pen desg o dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ymwelodd y tîm adolygu am ddiwrnod â safle pob sefydliad oedd yn cymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymweliadau adolygu yn ystod mis Mawrth 2026 pan gyfarfu'r tîm adolygu ag aelodau uwch o'r staff, aelodau o'r staff academaidd a'r staff cymorth proffesiynol a'r myfyrwyr.

Ystyriwyd bod y meysydd astudio oedd dan sylw yn cyfateb â'r pwyntiau cyfeirio oedd yn briodol i reoli sefydliadau addysg uwch. Bydd rhai o'r pwyntiau cyfeirio'n rhai i'r DU gyfan, megis Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, a bydd eraill yn benodol berthnasol i'r sector yng Nghymru.

Gallwch weld rhagor o fanylion am y gofynion sylfaenol perthnasol o ran safonau academaidd ac ansawdd yng nghanllawiau'r corff cyllido.[1]

## Argymhellion am gymorth sefydliadol a thraws-sector

Nodwyd deg argymhelliad yn adroddiad yr Adolygiad ThFA mewn perthynas â darparu cymorth sefydliadol a thraws-sector mewn meysydd astudio sy'n is na'r trothwy'n barhaus. Mae'r pum argymhelliad cyntaf i gael eu hystyried gan Medr yn benodol. Mae'r pum argymhelliad sy'n weddill i gael eu hystyried yn ehangach gan y sector, ar y cyd â Medr, ac yn rhan o hynny, dylai'r ystyriaeth geisio nodi'r corff neu'r cyrff mwyaf priodol i sicrhau llwyddiant, gan gynnwys defnyddio rhwydweithiau a fforymau sy'n bodoli'n barod.

### Argymhellion i'w hystyried gan Medr yn benodol

- Egluro prif nodau cynlluniau gweithredu dilynol, yn alinio'r templedi ar gyfer cynlluniau gweithredu'n uniongyrchol â'r nodau hynny, ac, at ddibenion cysondeb, egluro i sefydliadau pa lefel o fanylder a data sy'n ofynnol ynghyd â gosod cyfyngiadau amser a chanlyniadau peidio cyflawni'r rhain (paragraff 27).
- Ystyried ai'r raddfa Likert bum pwynt yw'r offeryn mwyaf priodol i fesur 'boddhad cyffredinol' ac ystyried ymdrin â'r mater hwn gyda'r cyrff cyllido a'r cyrff rheoleiddio yng ngwledydd eraill y DU (paragraff 28).
- Ystyried a yw parhad cynlluniau gweithredu dilynol yn briodol ar gyfer meysydd astudio sy'n gyson agos at y trothwy o 70% ar gyfer boddhad cyffredinol, ond gyda themâu'r ACF yn dal i fod yn uwch na'r sgorau meincnod (paragraff 29).
- Egluro i sefydliadau a yw'r holl gyrsiau sy'n perthyn i grŵp CAH3 sy'n is na'r trothwy ar gyfer boddhad cyffredinol i gael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu, neu ai dim ond y cyrsiau hynny sydd wedi dod â'r boddhad i lawr yn is na'r trothwy y dylid eu cynnwys (paragraff 32).
- Cynnwys adran benodol yn nhempledi Medr ar gyfer cynlluniau gweithredu lle gall sefydliadau werthuso ac adrodd yn feirniadol ar gynllun gweithredu'r flwyddyn flaenorol, yn cynnwys camau gweithredu a gwblhawyd a/neu a dreiglwyd ymlaen, ac yn bwysig, yr effaith y mae'r camau gweithredu hyn wedi ei chael ar farn neu foddhad y myfyrwyr (paragraff 33).

### Argymhellion i'r sector cyfan

- Archwilio cyfleoedd i alluogi i sefydliadau rannu gwybodaeth, ar fforymau priodol yn y sector, am effaith adnoddau staff academaidd ar foddhad y myfyrwyr yn eu sefydliadau nhw (paragraff 4).
- Ystyried sut i helpu sefydliadau i ragweld ac ymateb i feysydd o dwf disgwyliedig (paragraff 6).
- Ystyried ffurfio grwpiau meysydd astudio cenedlaethol i feysydd astudio sy'n aros yn is na'r meincnod yn barhaol er mwyn rhannu arferion a phrofiadau a llunio strategaethau ar gyfer gwella boddhad y myfyrwyr (paragraff 17).
- Ystyried rhannu arferion er mwyn cynyddu ymgysylltiad gweithredol y myfyrwyr â mecanweithiau adborth ffurfiol (paragraff 22).

[1] Y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

- Ystyried sut i gefnogi sefydliadau i rannu arferion a/neu ddarparu mewnbwn allanol i'w helpu i ymdrin â hinsawdd ariannol heriol, yn enwedig mewn perthynas â chyrsiau sy'n peri costau uchel (paragraff 38).

## Materion allweddol sydd i dderbyn ystyriaeth gan y sector

Canfu'r Adolygiad ThFA bedwar maes gwahanol oedd yn effeithio ar foddhad y myfyrwyr mewn mwy nag un sefydliad yn y sampl. Efallai fod y meysydd hyn yn adlewyrchu materion sy'n gyffredin i'r holl sefydliadau, ac felly dylai pob sefydliad fod yn ymwybodol o'u heffaith ar foddhad y myfyrwyr.

- Amhariad o ganlyniad i broblemau staffio: Gall gymryd nifer o flynyddoedd i ddod dros effaith swyddi gwag ymysg y staff, neu absenoldebau byr rybudd gan staff, ar foddhad y myfyrwyr. Argymhellwyd i nifer o'r sefydliadau yn y sampl eu bod yn datblygu ac ymwreiddio trefniadau wrth gefn cadarn er mwyn lleihau'r amhariad ar brofiadau dysgu'r myfyrwyr sy'n digwydd oherwydd bod staff yn ymadael neu'n absennol am gyfnodau estynedig. Argymhellwyd hefyd bod cyfathrebu digonol yn digwydd a bod cefnogaeth briodol ar gael i'r myfyrwyr os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd i'r cwrs o fewn y flwyddyn (o ganlyniad i newid mewn staffio) (paragraff 3).

- Amserlennu: Soniodd myfyrwyr ymhob un o'r sefydliadau fod bylchau mawr rhwng gweithgareddau dysgu yn ystod diwrnod y myfyrwyr wedi arwain at ddiffyg ymgysylltiad ac absenoldebau gan rai myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr oedd angen teithio bob dydd a'r rhai oedd ag ymrwymiadau eraill. Dywedodd y myfyrwyr fod yr absenoldebau hyn a'r diffyg ymgysylltiad wedi cael effaith (negyddol) ar waith grŵp ac asesiad grŵp, ac roedden nhw'n ystyried hyn yn annheg, yn arbennig lle'r oedd aelodaeth y grwpiau wedi ei phenderfynu o flaen llaw gan dîm y cwrs (paragraff 11). Efallai y byddai'n syniad i sefydliadau ystyried y mater hwn yng nghyd-destun eu trefniadau amserlennu a'u strategaethau asesu eu hunain.

- Ymgysylltiad myfyrwyr ag arholwyr allanol: Yn sampl yr Adolygiad ThFA, roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod myfyrwyr wedi cyfarfod ag arholwyr allanol, ond roedd hyn wedi ei gyfyngu'n gyffredinol i gyflwyniad gwaith y flwyddyn derfynol yn hytrach nag ymgysylltiad ffurfiol i drafod profiad y myfyrwyr. Gwnaed argymhelliad i bob un o'r sefydliadau oedd yn cymryd rhan yn yr Adolygiad ThFA i gyflwyno cyfle ffurfiol i fyfyrwyr gwrdd ag arholwyr allanol, yn rhan o'r cylch blynyddol, i gryfhau ymgysylltiad myfyrwyr â phrosesau allanol o reoli ansawdd a galluogi i dystiolaeth arholwyr allanol gyfrannu'n fwy uniongyrchol at wella profiad y myfyrwyr (paragraff 23).

- Buddsoddiad cyfalafol a chyllidebau ailadroddol: Yn y sampl a adolygwyd, i ddatrys rhai o'r problemau oedd yn creu lefelau isel o foddhad, roedd gofyn gwneud buddsoddiad cyfalafol a/neu gynyddu cyllidebau ailadroddol staff, ond naill ai nid yw'r adnoddau hyn wedi bod ar gael neu nid ydynt wedi dod ymlaen yn ddigon cyflym i gael effaith gadarnhaol ar foddhad y myfyrwyr. Mae'n anodd gweld sut y bydd boddhad y myfyrwyr yn y meysydd astudio hyn yn gwella heb y lefel ofynnol o fuddsoddiad. Wrth benderfynu pa ddarpariaeth i'w chynnig, dylai sefydliadau sicrhau bod ganddynt adnoddau a seilwaith priodol i gefnogi profiad cadarnhaol i bob myfyriwr (paragraffau 9, 36, 37).

## Yr adroddiad hwn

Canolbwyntiodd yr Adolygiad ThFA ar naw maes, sydd wedi eu grwpio o dan y pedwar pennawd a ganlyn:

### Boddhad y myfyrwyr

- Ffactorau sy'n gyrru/achosi lefelau isel o foddhad ymysg y dysgwyr
- Themâu sydd wedi parhau dros yr holl flynyddoedd y mae'r meysydd astudio wedi bod dan fesurau dilynol
- Unrhyw themâu cyffredin ar draws y meysydd astudio
- Pethau sydd wedi gweithio'n dda.

### Cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o ddadansoddi profiad y myfyrwyr a chanlyniadau'r ACF

- I ba raddau y mae sefydliadau wedi gweithio gyda myfyrwyr, wedi dadansoddi canlyniadau'r ACF ac wedi defnyddio mecanweithiau llais y myfyrwyr i weld yn gywir beth yw'r rhesymau dros lefelau isel o foddhad

### Effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu (Medr a'r sefydliad) ar gyfer meysydd astudio penodol

- Pa mor ddigonol a thrwyadl yw'r cynlluniau gweithredu y mae sefydliadau wedi eu rhoi ar waith, p'un a yw'r gweithredoedd a welwyd yn briodol neu wedi bod yn briodol i wneud y gwelliannau angenrheidiol, ac unrhyw fylchau arwyddocaol mewn cynlluniau gweithredu.

### Trefnau sefydliadol ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd profiad y myfyrwyr

- Camau, heblaw am yr ACF a dadansoddiad llais y myfyrwyr, y mae sefydliadau wedi eu cymryd i werthuso a yw'r ddarpariaeth yn ddigonol i ateb anghenion rhesymol y myfyrwyr
- Effeithiolrwydd gwaith craffu'r arweinwyr uwch a'r llywodraethwyr ar sgorau 'boddhad y myfyrwyr' yn y meysydd astudio hyn, ac i ba raddau y maen nhw wedi herio tanberfformiad a nodi'r rhesymau gwaelodol am lefelau isel o foddhad ymysg y myfyrwyr
- A oes tystiolaeth i ddangos bod gwendidau systemig o bosib yn y ffordd y mae'r sefydliad yn rheoli ansawdd profiad ei fyfyrwyr.

# Crynodeb o ganlyniadau'r adolygiad

## Boddhad y myfyrwyr

### Ffactorau sy'n gyrru lefelau isel o foddhad ymysg y dysgwyr

#### Staffio

1. Yn ôl y sefydliadau a'r meysydd astudio a adolygwyd, y staff academaidd yw'r ffactor unigol mwyaf dylanwadol ar foddhad y myfyrwyr. Gallai elfennau eraill o brofiad y myfyrwyr fod yn rhagorol - er enghraifft, adnoddau dysgu, gwasanaethau proffesiynol, a swyddi'r graddedigion - ond os oes problemau gyda gallu neu gapasiti yn nhimau academaidd y cyrsiau, mae hyn yn effeithio ar yr ymatebion yn holl themâu a chwestiynau'r ACF, ac eithrio'r adnoddau dysgu o bosib.

2. Mae pob maes astudio a phob sefydliad yn yr Adolygiad ThFA hwn wedi wynebu nifer o swyddi gwag ymysg y staff a/neu absenoldebau staff hir sydd wedi effeithio ar brofiad y myfyrwyr ar draws yr holl flynyddoedd astudio. Roedd y sefydliadau'n ceisio ymdrin â hyn yn y tymor byr drwy adleoli staff o feysydd astudio cytras tebyg ac apwyntiadau dros dro. Fodd bynnag, ymhob achos, roedd y staff cyfredol yn wynebu llwythi gwaith anarferol o uchel yn ystod y cyfnodau hyn. Mewn un o'r meysydd astudio, cyflwynwyd blwyddyn gyntaf sy'n gyffredin i nifer o raglenni yn rhan o ateb hirdymor i broblem barhaus o brinder staff. Mewn nifer fach o achosion, nododd y myfyrwyr a'r sefydliadau hefyd fod perfformiad aelodau unigol o'r staff yn ffactor ychwanegol a chydamserol sy'n effeithio'n negyddol ar brofiad y myfyrwyr. Ymhob un o'r meysydd astudio, rhoddodd y myfyrwyr sylw am yr amrywiaeth ym mherfformiad neu ymgysylltiad y staff ar draws y gwahanol fodiwlau.

3. Nododd y tîm adolygu bod nifer o absenoldebau gan staff neu swyddi gwag ymysg y staff yn gallu digwydd unrhyw bryd ac ar fyr rybudd, a'i bod yn gallu cymryd nifer o flynyddoedd i ddod dros yr effaith y mae hyn wedi ei chael, yn enwedig ar foddhad y myfyrwyr a sgorau dilynol yr ACF. Canfu'r tîm adolygu enghreifftiau o reolaeth lwyddiannus ar y sefyllfa staffio trwy gymysgedd o newid trefniadau rheolaeth llinell, cyflwyno aelodau newydd o staff, a symleiddio rhaglenni. Yn yr achosion hyn, siaradodd y myfyrwyr yn eglur a brwdfrydig am y gwelliannau roedden nhw wedi eu gweld o ganlyniad i'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sefyllfa staffio. Rhagwelir y bydd y bydd y sgorau'n gwella pan fydd y myfyrwyr hyn yn cwblhau'r ACF. Gwnaeth y timau adolygu argymhelliad i'r rhan fwyaf o'r sefydliadau oedd yn cymryd rhan yn yr Adolygiad ThFA i ddatblygu ac ymwreiddio trefniadau wrth gefn cadarn er mwyn lleihau'r amhariad ar brofiadau dysgu'r myfyrwyr sy'n digwydd oherwydd bod staff yn ymadael neu'n absennol am gyfnodau estynedig, a bod cyfathrebu digonol yn digwydd a bod cefnogaeth briodol ar gael i'r myfyrwyr os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd i'r cwrs o fewn y flwyddyn (o ganlyniad i newid mewn staffio).

4. Gallai adnoddau staff academaidd a'r cysylltiad uniongyrchol â boddhad y myfyrwyr fod yn faes lle gall sefydliadau rannu arferion naill ai'n fewnol neu'n allanol drwy grwpiau yn y sector megis Universities Human Resources (UHR) a'r Association of Higher Education Professionals (AHEP) neu o bosib drwy fecanweithiau y gallai Medr gynorthwyo â nhw. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y sector yn archwilio cyfleoedd i alluogi i sefydliadau rannu gwybodaeth, ar fforymau priodol yn y sector, am effaith adnoddau staff academaidd ar foddhad y myfyrwyr yn eu sefydliadau nhw.

#### Ystyriaethau staffio penodol i ddisgyblaeth

5. Cafodd cyrsiau **Cyfrifiadureg** gyfres ddigynsail o broblemau gyda recriwtio staff oll ar yr un pryd. Ar yr un adeg â dechrau'r pandemig COVID-19 gwelwyd cynnydd ar lefel genedlaethol

yn y nifer o geisiadau a wnaed drwy UCAS am leoedd ar gyrsiau Cyfrifiadureg[2 3], ac roedd sefydliadau addysg uwch yn ceisio ehangu eu darpariaeth i ateb y galw, ond roedden nhw'n cystadlu am nifer cyfyngedig o arbenigwyr yn y maes hwnnw. Pan lwyddodd y sefydliadau i benodi staff newydd, naill ai o'r DU neu o dramor, roedd campysau ar gau yn ystod y cyfnod clo felly nid oedd modd gwneud y cynefino, arsyllu neu fentora staff wyneb yn wyneb. Am fod aelodau newydd o'r staff yn addysgu ar-lein yn ystod y pandemig, dim ond pan ddechreuodd campysau ail agor y daeth nifer o wahaniaethau i'r amlwg yn arferion addysgu, dysgu ac asesu aelodau newydd o staff. Ymatebodd y sefydliadau'n briodol i'r problemau hyn wrth iddyn nhw godi ac mae rhai wedi cymryd camau ychwanegol i'w helpu i'w diogelu eu hunain at y dyfodol - er enghraifft, drwy gynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu ôl-raddedig y maent yn eu cyflogi a'u hyfforddi cyn penodi staff i swyddi addysgu parhaol.

6. Efallai felly fod hwn yn faes lle gallai grwpiau neu rwydweithiau perthnasol yn y sector helpu sefydliadau i graffu'r gorwel am fannau twf y dyfodol, naill ai oherwydd cynnydd yn y galw gan fyfyrwyr, neu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, er mwyn adeiladu capasiti priodol lle bo'r angen. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y sector yn ystyried sut i helpu sefydliadau i ragweld ac ymateb i feysydd o dwf disgwyliedig.

7. Ar y llaw arall, mae'r maes **Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio** mewn sefyllfa wahanol iawn o'i gymharu â Chyfrifiadureg am fod adroddiadau'n cyfeirio at ostyngiad yn y nifer o geisiadau a wnaed drwy UCAS[4]. Mater allweddol i sefydliadau yw'r gallu i sicrhau a chynnal ehangder priodol o arbenigwyr mewn materion pwnc i ddarparu'r amrywiaeth eang o wybodaeth a sgiliau a ddisgwylir gan raddedigion yn y meysydd astudio hyn.

8. Yn yr Adolygiad ThFA, dim ond mewn un o'r sefydliadau yr ystyriwyd y maes **Gwyddorau Ffisegol** felly nid oes modd gwneud cymariaethau. Fodd bynnag, cafwyd absenoldebau staff a swyddi gwag yn y maes astudio hwn, ac fe wynebodd amhariad oherwydd ailstrwythuro sefydliadol, oedd yn effeithio ar y staff a'r myfyrwyr.

## Adnoddau dysgu

9. Mae adnoddau dysgu a mynediad at gyfleusterau wedi effeithio ar foddhad y myfyrwyr ar draws yr holl sefydliadau oedd yn cymryd rhan i raddau mwy neu lai. Ymysg y problemau i fyfyrwyr mae problemau achlysurol o ran cael mynediad at adnoddau penodol i bwnc ar y campws y tu allan i'r oriau addysgu arferol, y gystadleuaeth a'r rhwystrau biwrocratig rhag cael mynediad at adnoddau a reolir gan faes astudio gwahanol, a'r diffyg mynediad at galedwedd a meddalwedd arbenigol yn ystod ac ar ôl y pandemig COVID-19. Mae adnoddau dysgu ym maes Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio, yn thema sy'n ailadrodd ac mae'r myfyrwyr a'r arholwyr allanol yn adrodd yn rheolaidd am ddiffyg mynediad at gyfarpar a meddalwedd o safon ddiwydiannol, bod y gofodau dysgu'n annigonol neu'n amhriodol a bod offer wedi torri'n arwain at anallu i ddatblygu'r sgiliau y mae'r diwydiant yn eu disgwyl i safon ddigon da. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn broblemau sy'n gofyn buddsoddiad cyfalafol ac, er bod rhywfaint o fuddsoddiad wedi bod mewn adnoddau a chyfleusterau priodol, nid yw hyn wedi bod ar y lefel neu'r cyflymder sy'n angenrheidiol i wella boddhad y myfyrwyr.

## Cydlyniad rhaglenni

10. Elfen arall a nodwyd fel un oedd yn creu lefelau isel o foddhad ymysg y myfyrwyr oedd cydlyniad rhaglenni, a'r rheswm pennaf am hynny oedd defnyddio modiwlau a rennir ar draws gwahanol raglenni. Soniodd y myfyrwyr yn rheolaidd am gynnwys yn gorgyffwrdd â chynnwys modiwlau eraill neu gamsyniadau ar ran y staff academaidd am y wybodaeth a'r sgiliau oedd

---

[2] 'UK 18-year-olds make record number of applications for computing courses' | UCAS

[3] 'What lies behind the astonishing rise in Computing?'

[4] '2026 cycle applicant figures - 14 January deadline' | UCAS

gan y myfyrwyr yn barod pan oedden nhw ar lwybrau eraill, gan achosi i rai myfyrwyr deimlo nad oeddent wedi eu paratoi'n ddigonol ar gyfer modiwlau penodol. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd astudio roedd y myfyrwyr yn croesawu'r modiwlau oedd yn cael eu rhannu am eu bod yn mwynhau'r safbwyntiau a chyfresi sgiliau gwahanol yr oedd myfyrwyr o raglenni eraill yn eu cyflwyno i'w dysgu.

**Amserlennu**

11. Roedd effaith yr amserlennu'n fater arall a nodwyd yn aml gan fyfyrwyr yn ystod yr Adolygiad ThFA. Roedd cyflwyniad system amserlennu newydd mewn un o'r sefydliadau wedi achosi problemau a gwallau amserlennu sylweddol oedd wedi effeithio'n arwyddocaol ar sgorau'r ACF yn y flwyddyn a effeithiwyd. Fodd bynnag, soniodd myfyrwyr ymhob un o'r sefydliadau fod bylchau mawr rhwng gweithgareddau dysgu yn ystod diwrnod y myfyrwyr wedi arwain at ddiffyg ymgysylltiad ac absenoldebau gan rai myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr oedd angen teithio bob dydd a'r rhai oedd ag ymrwymiadau eraill. Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod yr absenoldebau hyn a'r diffyg ymgysylltiad wedi cael effaith (negyddol) ar waith grŵp ac asesiad grŵp, ac roedden nhw'n ystyried hyn yn annheg, yn arbennig lle'r oedd aelodaeth y grwpiau wedi ei phenderfynu o flaen llaw gan dîm y cwrs.

## Themâu sy'n ailadrodd

12. Er bod problemau parhaus gyda chapasiti staff, mae'r sefydliadau a thimau'r meysydd astudio wedi parhau i gymryd camau priodol i fynd i'r afael â themâu penodol yr ACF. Mewn asesiad ac adborth, er enghraifft, mae sefydliadau wedi cyflwyno dulliau amrywiol o dracio adborth am asesiad awtomataidd; datblygiad proffesiynol parhaus pwrpasol i'w staff; cyfarwyddiadau asesu wedi'u safoni ac adborth ar draws y modiwlau; ac ymgorffori cyflawni amserlenni adborth asesiadau i mewn i adolygiadau perfformiad staff. Mewn cymorth academaidd, a threfniant a rheolaeth mae enghreifftiau o gyd-ofodau newydd i'r myfyrwyr a'r staff, lle gall y myfyrwyr ymgysylltu'n rheolaidd (yn ddyddiol) ag uwch reolwyr a lle gwneir gwelliannau mewn rhith-amgylcheddau dysgu ar gyfer cynnwys a chyfathrebu. Mewn perthynas â chyfleoedd dysgu, mae cyfleoedd yn bodoli o hyd i adfywio cwricwla drwy wneud addasiadau bach a mawr i fodiwlau, ynghyd â gwaith ail-ddilysu a phrosesau achredu parhaus gan gyrff proffesiynol. I harneisio manteision llawn y newidiadau hyn, y gwelir tystiolaeth ohonynt ym moddhad y myfyrwyr, mae'n rhaid cael digon o adnoddau staff i ddarparu'r canlyniadau.

13. Mewn perthynas â phroblemau staffio, mae'r tîm adolygu'n rhybuddio na ddylai sefydliadau amcanu'n rhy isel beth yw effaith nifer o absenoldebau staff neu swyddi gwag niferus ar brofiad y myfyrwyr a'u hymatebolrwydd i adborth o'r ACF, neu am faint o amser y mae myfyrwyr yn parhau i deimlo effaith yr absenoldebau hyn. Dylai sefydliadau sicrhau bod ganddynt gynlluniau wrth gefn cadarn yn eu lle i reoli amgylchiadau annisgwyl fel hyn mor gyflym ag y bo modd.

14. Roedd hi'n amlwg yn y sampl a adolygwyd, unwaith yr oedd maes astudio dan fesurau dilynol, fod y lefelau boddhad yn isel yn yr un meysydd yng nghanlyniadau'r ACF mewn blynyddoedd dilynol, er bod y sgorau yn y themâu perthnasol wedi gwella o bosib. Disgwylir i fyfyrwyr sy'n cwblhau'r ACF fyfyrio ar eu profiad addysg uwch cyfan ac felly bydd amseriad digwyddiadau'n dylanwadu ar ganlyniadau'r ACF. Yn ystod yr ymweliadau adolygu, roedd myfyrwyr yn esbonio materion a ddigwyddodd yn gynnar yn eu cyrsiau, megis problemau mawr gydag amserlennu neu staff, ac roedden nhw'n mynegi beirniadaethau gwerth am y sefydliadau a'u cyrsiau ar sail y digwyddiadau hyn yn y gorffennol, hyd yn oed pan oedd y materion hynny wedi eu datrys. Felly, mae amseriad y datrysiad i broblemau'n ffactor ym moddhad y myfyrwyr. Lle gallai myfyrwyr weld bod problemau cynnar wedi gwella roedden nhw'n siarad yn gadarnhaol am effaith y camau gweithredu a gymerwyd, ond lle'r oedden nhw wedi profi'r un problemau o un flwyddyn i'r nesaf (er enghraifft, yn gweld prinder adnoddau dysgu) roedden nhw'n llawer mwy negyddol.

15. Mae hyn yn cefnogi'r angen am adran benodol yng nghynlluniau gweithredu Medr lle gall sefydliadau adrodd yn feirniadol am gynnydd ar gynllun gweithredu'r flwyddyn flaenorol, yn cynnwys camau gweithredu a gwblhawyd a/neu a dreiglwyd ymlaen ac, yn bwysig, adrodd am yr effaith y mae gweithredoedd wedi ei chael ar farn neu foddhad y myfyrwyr er mwyn gwahaniaethu rhwng problemau o'r gorffennol a phroblemau sy'n wirioneddol ddigwydd dro ar ôl tro ac sydd angen sylw (paragraff 33).

## Themâu cyffredin

16. Roedd hi'n amlwg yn y sampl a adolygwyd bod nifer o'r sefydliadau'n ymdrin â phroblemau tebyg mewn meysydd astudio cyffelyb ac, er gwaethaf yr ymdrechion gorau mewn cynlluniau gweithredu, nid oedd y gwelliannau'n digwydd mor gyflym ag y byddai'r sefydliadau wedi ei ddisgwyl, yn enwedig o'i gymharu â meysydd astudio eraill oedd wedi bod dan fesurau dilynol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ym meysydd Cyfrifiadureg a Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio. Awgrymodd y sefydliadau eu hunain y byddai'n fuddiol dod â grwpiau meysydd astudio cenedlaethol at ei gilydd i rannu arferion a phrofiadau mewn meysydd astudio sy'n parhau'n ystyfnig o dan y meincnod. Ymysg y pynciau posibl i'w harchwilio gellid edrych ar ofynion mynediad, demograffeg, disgwyliadau myfyrwyr, adnoddau dysgu arbenigol ar gyfer meysydd astudio penodol, ac adnoddau dysgu i ateb anghenion dysgu'r myfyrwyr.

17. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y sector yn ystyried ffurfio grwpiau meysydd astudio cenedlaethol i feysydd astudio sy'n aros yn is na'r meincnod yn barhaol ar draws y sefydliadau er mwyn rhannu arferion a phrofiadau a llunio strategaethau ar gyfer gwella boddhad y myfyrwyr.

## Pethau sydd wedi gweithio'n dda

18. Y themâu cyffredin ar draws y sefydliadau sy'n ymddangos fel petaent yn gweithio'n dda yw ymgysylltiad â'r diwydiant a'r cyflogwyr, a chymorth gan wasanaethau proffesiynol. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r elfen o'u profiad oedd yn ymwneud â chysylltiadau â diwydiant. Yn arbennig, roedd y myfyrwyr yn gadarnhaol am y cyfle i gael senarios a/neu asesiadau perthnasol i ddiwydiant, cysylltiad ag arbenigwyr o fyd diwydiant, modiwlau ar gyfer hybu cyflogadwyedd, a'r cyfleoedd lleoliad gwaith yn y diwydiant. Mae achrediadau gan gyrff proffesiynol, lle bo'n berthnasol, yn werthfawr iawn i fyfyrwyr hefyd ac, ar y cyfan, roedd y myfyrwyr yn canmol y gefnogaeth gan y gwasanaethau proffesiynol.

# Cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o ddadansoddi profiad y myfyrwyr a chanlyniadau'r ACF

19. Mae gan bob sefydliad strwythurau ffurfiol i gynrychioli myfyrwyr, ac mae gan bob un ohonynt gynrychiolwyr y myfyrwyr ar bwyllgorau profiad myfyrwyr sy'n ystyried data meintiol ac ansoddol o'r ACF a ffynonellau mewnol.

20. Soniodd y sefydliadau fodd bynnag bod ymgysylltiad isel y myfyrwyr mewn mecanweithiau llais y myfyriwr yn broblem barhaus, er gwaethaf ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ohono ac amrediad o wahanol gyfleoedd i ymgysylltu. Trwy gydol yr Adolygiad ThFA, roedd y myfyrwyr yn ymddangos yn gyffredinol ymwybodol o gyfleoedd i roi adborth. Roedd rhai myfyrwyr yn ymwybodol o waith dilynol drwy ddulliau 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' ond ni allai eraill nodi newidiadau oedd wedi digwydd mewn ymateb i'w hadborth. Os nad yw adborth wedi arwain at newid gweladwy gallai hyn, yn rhannol, gyfrannu at ostyngiad mewn ymgysylltiad â mecanweithiau adborth. Soniwyd hefyd am syrffed arolygon fel rheswm posibl pam nad yw myfyrwyr yn ymgysylltu.

21. Fodd bynnag, mae nifer o'r sefydliadau wedi cynyddu'r ymgysylltiad â myfyrwyr yn arbennig lle mae myfyrwyr wedi cael eu cyflogi i weithredu fel hyfforddwyr myfyrwyr neu swyddogion ymgysylltu. Mae'r cynlluniau hyn wedi gweld cynnydd mesuradwy mewn ymgysylltiad â mecanweithiau adborth, datrys problemau myfyrwyr yn gyflymach, ac mewn rhai achosion, gwelliannau yn sgorau'r ACF.

22. Mae modiwlau neu raglenni sydd â chyfraddau ymateb isel yn golygu fod prinder tystiolaeth y gall timau'r cyrsiau seilio penderfyniadau arnynt ar gyfer gwneud newid. Byddai o fantais i'r timau cwrs hyn os byddai'r myfyrwyr yn ymgysylltu fwy â mecanweithiau adborth ar lefelau'r modiwlau, y rhaglenni a'r sefydliad. Byddai cynyddu cyfranogaeth yn cynhyrchu data sy'n cynrychioli barn y myfyrwyr yn well, a byddai'n arwain at welliannau mwy dibynadwy ar lefel

y rhaglen. Efallai felly fod hwn yn faes lle gallai grwpiau neu rwydweithiau yn y sector helpu i rannu arferion ar lefel genedlaethol. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y sector yn ystyried rhannu arferion er mwyn cynyddu ymgysylltiad gweithredol y myfyrwyr â mecanweithiau adborth ffurfiol.

23. Un dull posibl o gasglu adborth gan fyfyrwyr y mae'n ymddangos bod pob sefydliad wedi ei anwybyddu yw'r cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu ag arholwyr allanol gyda'r diben penodol o roi adborth am eu profiadau fel myfyrwyr. Mae un o'r sefydliadau'n hyrwyddo cyfarfodydd gydag arholwyr allanol ond mae'n ymddangos mai ffocws hyn yw adolygu eu gwaith blwyddyn derfynol yn hytrach na gwneud adolygiad penodol o brofiad y myfyrwyr. Gwnaed argymhelliad i bob un o'r sefydliadau oedd yn cymryd rhan yn yr Adolygiad ThFA i gyflwyno cyfle ffurfiol i fyfyrwyr gwrdd ag arholwyr allanol, yn rhan o'r cylch blynyddol, i gryfhau ymgysylltiad myfyrwyr â phrosesau allanol o reoli ansawdd a galluogi i dystiolaeth arholwyr allanol gyfrannu'n fwy uniongyrchol at wella profiad y myfyrwyr.

## Effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu (Medr a'r sefydliad) ar gyfer meysydd astudio penodol

24. Mae cynlluniau gweithredu pob un o'r sefydliadau'n esbonio'n gyffredinol dda beth yw'r elfennau sy'n gyrru'r lefelau isel o foddhad ymysg y myfyrwyr, a chanfu'r tîm adolygu fod y cynlluniau gweithredu mewnol yn cynnwys lefel uwch o ddadansoddiad o'i gymharu â chynlluniau gweithredu Medr.

25. Ni chanfu'r timau adolygu unrhyw fylchau arwyddocaol mewn cynlluniau gweithredu o ran y camau gweithredu a nodwyd i ymdrin â lefelau isel o foddhad ymysg y myfyrwyr. Fodd bynnag, gellid gwneud cynlluniau gweithredu mewnol ac allanol yn fwy effeithiol drwy wneud nifer fach o newidiadau, fel a ganlyn.

### Nodau cynlluniau gweithredu Medr

26. Ni ellir darganfod yn llawn pa mor effeithiol yw'r cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd astudio penodol os yw eu nodau'n glir. Yn y sampl a adolygwyd, roedd y sefydliadau wedi dehongli ac ymateb yn wahanol i dempledi Medr ar gyfer cynlluniau gweithredu ac felly efallai y byddai'n syniad i Medr ystyried esbonio'n fwy eglur i'r sefydliadau beth yw nodau'r cynlluniau gweithredu. Byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau wybod ai dyma yw nod cynllun gweithredu:

- rhoi sicrhad bod sefydliadau'n cymryd camau i ymdrin â meysydd astudio sy'n tanberfformio a bod y corff llywodraethu a chorff cynrychioli'r myfyrwyr (Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol) yn goruchwylio'r cynlluniau gweithredu;
- olrhain cynnydd yn drwyadl yn erbyn cynlluniau gweithredu blaenorol;
- cynnig ymyriadau cefnogol (megis rhannu arferion) lle mae elfen gyffredin yn y tanberfformio ar draws y meysydd astudio neu'r sefydliadau;
- penderfynu ar amseriad derbyniol i wella boddhad y myfyrwyr yn uwch na'r trothwy.

27. Wrth ddrafftio templedi ar gyfer cynlluniau gweithredu dilynol, mae tensiwn rhwng darparu'r hyblygrwydd i alluogi i sefydliadau gyflwyno cynlluniau gweithredu yn eu cyd-destun eu hunain ac i geisio hwyluso cymariaethau traws-sefydliadol neu adolygiadau thematig sy'n gofyn mwy o gysondeb yn y llinellau adrodd a'r gofynion data. Am y rheswm hwn, mae angen i gynlluniau gweithredu Medr fod â nodau clir. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod Medr, wrth symud ymlaen, yn egluro prif nodau cynlluniau gweithredu dilynol, yn alinio'r templedi ar gyfer cynlluniau gweithredu'n uniongyrchol â'r nodau hynny, ac, at ddibenion cysondeb, yn egluro i sefydliadau pa lefel o fanylder a data sy'n ofynnol ynghyd â gosod cyfyngiadau amser a chanlyniadau peidio cyflawni'r rhain.

## Defnyddio sgorau 'boddhad cyffredinol' i adnabod meysydd astudio ar gyfer cynlluniau gweithredu dilynol

28. Ystyriwyd bod gan yr ymateb graddfa Likert bum pwynt ar gyfer 'boddhad cyffredinol' y potensial i effeithio ar y data os dewisir yr ymateb 'canol' (sef peidio cytuno neu anghytuno), gan achosi lefelau is o foddhad cyffredinol. Mae'r holl gwestiynau eraill yn themâu'r ACF o 2023 ymlaen wedi eu haddasu i ofyn am ymateb gan ddefnyddio graddfa Likert bedwar pwynt. O ganlyniad i hyn, yn yr enghreifftiau a adolygwyd mewn perthynas â'r cwestiwn sy'n ymwneud â 'boddhad cyffredinol', mae o leiaf un pwnc wedi ymddangos fel petai dan fesurau dilynol er bod themâu eraill yr ACF yn uwch na'r meincnod. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod Medr yn ystyried ai'r raddfa Likert bum pwynt yw'r offeryn mwyaf priodol i fesur 'boddhad cyffredinol' ac yn ystyried ymdrin â'r mater hwn gyda'r cyrff cyllido a'r cyrff rheoleiddio yng ngwledydd eraill y DU.

29. Yn y sampl a adolygwyd, mae tystiolaeth o feysydd astudio nad ydynt yn llwyddo'n gyfan gwbl i gyrraedd y trothwy o 70% ar gyfer boddhad cyffredinol ond sy'n rhoi ffigur o 69%. Gall y rhain barhau i fod dan fesurau dilynol hyd yn oed lle mae themâu eraill yn yr ACF yn uwch na'r meincnod. Mae meysydd astudio eraill (neu gyrsiau mewn meysydd astudio) sy'n symud y naill ochr neu'r llall i'r trothwy o 70% o bosib oherwydd effaith anghyfartal niferoedd bach (paragraff 30) a/neu'r raddfa Likert bum pwynt ar gyfer y cwestiwn sy'n ymwneud â 'boddhad cyffredinol' (paragraff 28). Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod Medr yn ystyried a yw parhad cynlluniau gweithredu dilynol yn briodol ar gyfer meysydd astudio sy'n gyson agos at y trothwy o 70% ar gyfer boddhad cyffredinol, ond gyda themâu'r ACF yn dal i fod yn uwch na'r sgorau meincnod.

## Deall ac esbonio effaith niferoedd bach o fyfyrwyr

30. Mae niferoedd bach o fyfyrwyr mewn un maes astudio'n gallu achosi i nifer fach o ymatebwyr gael effaith anghymesur ar y sgorau 'boddhad'. Yn y sampl oedd wedi ei chynnwys yn yr Adolygiad ThFA, roedd gan un o'r meysydd astudio 23 o fyfyrwyr cymwys ar draws y rhaglenni i gyd, ond ni chafwyd ymateb i'r arolwg gan bob un o'r rhain. Lle mae nifer fach o fyfyrwyr o un flwyddyn i'r llall, gall dehongliad gael ei effeithio ymhellach oherwydd gallai cyrsiau unigol gyrraedd y trothwyon ar gyfer adrodd am yr ACF mewn rhai blynyddoedd, ond nid mewn eraill. Mae'n bosibl i faes astudio ar lefel CAH3 gyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd am yr ACF, er bod cwrs unigol yn y maes astudio hwnnw heb gyflawni'r trothwy ar gyfer adrodd mewnol. Hefyd, gallai'r gwrthwyneb ddigwydd: efallai fod cwrs wedi cyrraedd y trothwy adrodd mewnol, ond os yw ei fyfyrwyr wedi eu rhannu ar draws nifer o grwpiau CAH (oherwydd y defnydd a wneir o'r system godio Dosbarthu Pynciau Addysg Uwch [Higher Education Classification of Subjects] (HECoS)), ni chaiff unrhyw rai o'r grwpiau hynny gyrraedd y trothwy'n unigol ar gyfer cyhoeddi.

31. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys data cyson am y llinell amser er mwyn dangos yn eglur beth yw'r tueddiadau a chyfeiriad y teithio. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod ailstrwythuro sefydliadol, ailddosbarthu codau HECoS a/neu newid teitlau'r cyrsiau'n gallu amharu ar y data cyfres amser.

## Cysondeb a/neu eglurder ym manylder yr adrodd

32. O'r sampl a adolygwyd, mae data'n cael ei adrodd yn rhyng-gyfnewidiol ar lefel y cyrsiau unigol, CAH1, CAH3, themâu'r ACF a chwestiynau unigol yr ACF, a gyda phob addasiad a chyfuniad o'r rhain. Mae hefyd rywfaint o ddryswch ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai'r holl gyrsiau sydd mewn grŵp CAH3 sy'n is na'r trothwy o 70% ar gyfer boddhad cyffredinol i fynd o dan fesurau dilynol gael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu, neu ai dim ond y cyrsiau hynny sydd wedi dod â'r boddhad i lawr yn is na'r trothwy o 70% y dylid eu cynnwys. Fodd bynnag, dylid nodi bod gallu sefydliadau i adrodd ar lefelau penodol o fanylder yn dibynnu ar faint y garfan myfyrwyr (paragraff 30). Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod Medr yn egluro i sefydliadau a yw'r holl gyrsiau sy'n perthyn i grŵp CAH3 sy'n is na'r trothwy ar gyfer boddhad cyffredinol i gael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu, neu ai dim ond y cyrsiau hynny sydd wedi dod â'r boddhad i lawr yn is na'r trothwy y dylid eu cynnwys.

## Y defnydd a wneir o amcanion CAMPUS

33. Mae ansawdd cynlluniau gweithredu mewnol y sefydliadau wedi gwella'n raddol dros y cyfnod adrodd ac mae rhagor o dystiolaeth i ddangos bod amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) yn cael eu defnyddio, gyda phwyntiau gwirio ar gynnydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd dystiolaeth fwy diweddar o sefydliadau'n adrodd yn feirniadol ar gynlluniau gweithredu'r flwyddyn flaenorol a, lle bo raid, dreiglo camau gweithredu a thargedau nad ydynt wedi eu cyflawni'n llawn yn eu blaen. Byddai'n ddefnyddiol ymgorffori hyn yng nghynlluniau gweithredu Medr. Rhaid canmol y lefel o hunan-ddadansoddiad beirniadol a datgeliad llawn y data am foddhad y myfyrwyr mewn adroddiadau ar bob lefel, yn cynnwys hyd at y Bwrdd Llywodraethwyr. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o fannau lle mae diweddariadau i gynlluniau gweithredu'n adrodd am gamau gweithredu a gwblhawyd, neu lle mae camau gweithredu'n dal i gael eu gweithredu, ond nid oes enghreifftiau o fannau lle mae'r camau gweithredu wedi newid neu wella barn neu foddhad y myfyrwyr. Mae olrhain cyflawniad gweithgareddau yn hytrach na newidiadau yn neilliannau dysgu'r myfyrwyr yn cyfyngu ar allu strwythurau llywodraethu i benderfynu a yw cynlluniau gweithredu'n effeithiol ac mae hyn yn faes y gallai sefydliadau ei wella. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod Medr yn cynnwys adran benodol yn ei dempledi ar gyfer cynlluniau gweithredu lle gall sefydliadau werthuso ac adrodd yn feirniadol ar gynllun gweithredu'r flwyddyn flaenorol, yn cynnwys camau gweithredu a gwblhawyd a/neu a dreiglwyd ymlaen, ac yn bwysig, yr effaith y mae'r camau gweithredu hyn wedi ei chael ar farn neu foddhad y myfyrwyr.

# Trefnau sefydliadol ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd profiad y myfyrwyr

34. Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos bod pob un o'r sefydliadau'n defnyddio arholwyr allanol, arbenigwyr allanol mewn testunau astudio ar banelau dilysu, a phrosesau achredu cyrff proffesiynol i ddarparu rhagor o sicrhad bod darpariaeth yn ddigonol i ateb anghenion rhesymol y myfyrwyr.

35. Mae'r dystiolaeth a adolygwyd hefyd yn dangos bod canlyniadau'r ACF a'r dadansoddiad ohonynt ar gyfer pob sefydliad, ynghyd â chynlluniau gweithredu Medr a chynlluniau gweithredu mewnol, yn cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu ac Undeb y Myfyrwyr ac yn cael eu llofnodi ganddynt. Erbyn y bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu cyflwyno i gyrff llywodraethu, maen nhw wedi symud drwy strwythurau pwyllgorau'r sefydliadau sy'n ystyried materion yn ymwneud ag ansawdd academaidd. Mae gan sefydliadau bwyllgorau profiad myfyrwyr (neu gyfatebol) hefyd lle mae canlyniadau'r ACF a chynlluniau gweithredu a lunnir mewn ymateb i'r ACF ac arolygon mewnol yn cael eu hadolygu. Mae un o'r sefydliadau wedi cyflwyno pwyllgor pwrpasol i adolygu a gwella cynllun arolygon myfyrwyr, a'r ymgysylltiad â nhw, ac mae nifer o'r sefydliadau'n cyflwyno adroddiadau am yr ACF a chynlluniau gweithredu cysylltiedig i'w pwyllgorau archwilio a rheoli risgiau. Mae'n anodd gweld o gofnodion cyfarfodydd pa mor effeithiol yw gwaith craffu'r arweinwyr uwch a'r llywodraethwyr ar sgorau 'boddhad y myfyrwyr' mewn meysydd astudio penodol. Y rheswm am hynny'n rhannol yw natur cofnodion cyfarfodydd, a rheswm rhannol arall yw'r gweithredoedd sy'n digwydd y tu allan i bwyllgorau ffurfiol. Soniodd y sefydliadau i gyd fod canlyniadau'r ACF a'r dadansoddiad sefydliadol sy'n cyd-fynd â nhw'n cael eu dosbarthu i'r corff llywodraethu yn dilyn y dyddiad cyhoeddi blynyddol, ac y mae'r rhain yn cynhyrchu mwy o drafodaeth a sialens bellach. Cafwyd tystiolaeth o glustnodi amser ar gyfer trafodaethau'r ACF ar ddiwrnodau cwrdd y corff llywodraethu.

36. Dim ond o fewn eu cylch dylanwad nhw eu hunain y gall y timau cyrsiau, ysgolion, cyfadrannau a gwasanaethau proffesiynol gyfrannu at ffurfio a gweithredu cynlluniau gweithredu. Os yw gweithredoedd fel hyn wedi eu cyflawni'n dda, gallant effeithio'n gadarnhaol ar brofiad y myfyrwyr. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys newidiadau mewn asesiadau, safoni gwybodaeth am fodiwlau a rhaglenni ar y rhith-amgylchedd dysgu, ail-ddilysu rhaglenni, gwell amserlennu, cynnydd neu wahaniaeth yn y mathau o gymorth i fyfyrwyr, a mwy o ymgysylltiad â diwylliant. Fodd bynnag, yn y sampl a adolygwyd, i ddatrys rhai o'r problemau oedd yn creu lefelau isel

o foddhad, roedd gofyn gwneud buddsoddiad cyfalafol a/neu gynyddu cyllidebau ailadroddol staff, ac nid yw'r un o'r ddau o anghenraid o fewn gallu timau cyrsiau, ysgolion, cyfadrannau neu wasanaethau proffesiynol. Yn y meysydd astudio sy'n parhau i danberfformio'n barhaol, naill ai nid yw'r adnoddau hyn wedi bod ar gael neu nid ydynt wedi dod ymlaen yn ddigon cyflym i gael effaith gadarnhaol ar foddhad y myfyrwyr. Mae'n anodd gweld sut y bydd boddhad y myfyrwyr yn y meysydd astudio hyn yn gwella heb y lefel ofynnol o fuddsoddiad. Felly, nid yw'r broblem yn ymwneud â dealltwriaeth yr uwch reolwyr neu'r cyrff llywodraethu o'r ffactorau sy'n gyrru lefelau isel o foddhad parhaus ymysg y myfyrwyr. Mae'r broblem yn ymwneud â'r penderfyniadau a wneir i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn, ac ymhle y mae'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am y penderfyniadau hynny.

37. Wrth ystyried sut mae beirniadaethau'n cael eu gwneud am adnoddau, mae'n bwysig ystyried y cyd-destun y mae'r sefydliadau'n gweithio ynddo, yn enwedig am fod yr Adolygiad ThFA wedi ei seilio ar nifer fach o feysydd astudio a sampl bychan. Soniodd un o'r sefydliadau yn y sampl am ostyngiad yn y nifer o feysydd astudio sydd o dan fesurau dilynol Medr yn dilyn cytundeb gan y corff llywodraethu i wneud buddsoddiad sylweddol mewn mentrau i hybu'r lefel o foddhad ymysg y myfyrwyr, dros gyfnod o rai blynyddoedd. Fodd bynnag, nid yw pob sefydliad mewn sefyllfa ariannol i wneud buddsoddiadau o'r fath. Roedd sefydliad arall wedi cyflwyno bidiau am arian allanol ar gyfer prosiectau cyfalaf, ond roedd y rhain yn aflwyddiannus ac mae'r lefel o foddhad ymysg y myfyrwyr yn y seilwaith ffisegol yn parhau'n isel.

38. Mae'n heriol rheoli boddhad y myfyrwyr yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni ond yn arbennig felly i sefydliadau sydd â chyrsiau sy'n peri costau uchel wedi'u cyfuno â nifer fach o gofrestriadau myfyrwyr a/neu ostyngiad yn nifer y cofrestriadau. Mae hyn yn dod yn broblem strategol brys i rai sefydliadau. Efallai felly fod hwn yn faes lle gallai grwpiau neu rwydweithiau yn y sector helpu i rannu arferion ar lefel genedlaethol a/neu lle byddai darparu mewnbwn allanol yn fuddiol i sefydliadau. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y sector yn ystyried sut i gefnogi sefydliadau i rannu arferion a/neu ddarparu mewnbwn allanol i'w helpu i ymdrin â hinsawdd ariannol heriol, yn enwedig mewn perthynas â chyrsiau sy'n peri costau uchel.

Cyhoeddwyd ar 25 Mehefin 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000

[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)